

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

Cyfadrn Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Tŷ Trevithick, Abercynon, CF45 4UQ

Dyma hysbysiad yn unol ag Adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion, fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (Cyngor RhCT), ac yntau wedi ymgynghori â'r bobl hynny yr oedd yn ofynnol iddo ymgynghori â nhw, yn cynnig:

Gwneud newid a reoleiddir i Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn y Forwyn (YGG Llyn y Forwyn), trwy symud yr ysgol i adeilad newydd sbon ar safle newydd. Y cynnig yw adeiladu ysgol newydd, ar gyfer bechgyn a merched 3-11 oed, ar dir i ochr ogleddol Crib-y-ddôl, Glynrhedynog, CF43 4AD, a gaiff ei alw'n safle hen 'Ffatri Chubb' yn lleol. Bydd yr ysgol yn parhau i gael ei chynnal gan Gyngor RhCT.

Cynhaliodd Cyngor RhCT gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig yma. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd yn yr ymgynghoriad, ymatebion y cynigwyr a barn Estyn ar gael yma:

<https://www.rctcbc.gov.uk/CY/GetInvolved/Consultations/CurrentConsultations/ProposedalterationstoYsgolGynraddGymraegLlynForwynYGGLLlynForwyn.aspx>

Y bwriad ydy gweithredu'r cynigion yma erbyn 31 Mawrth 2024.

Ar hyn o bryd, mae digon o le yn YGG Llyn y Forwyn ar gyfer 197 o blant yn ogystal â'r dosbarth meithrin. Bydd yr adeilad newydd yn fwy, gyda lle i 210 o ddisgyblion yn ogystal â phlant y dosbarth meithrin. Yn ystod y flwyddyn gyntaf honno pan fydd y cynigion ar waith, bydd modd i 30 o ddisgyblion 4 oed gael eu derbyn i Ddosbarth Derbyn yr ysgol. Bydd 30 o leoedd yn y dosbarth meithrin. Cyngor RhCT fydd yn parhau i fod yn awdurdod derbyn.

Bydd cludiant ar gael i'r disgyblion yn unol â Pholisi Cludiant Cyngor RhCT. Ar hyn o bryd, mae Cyngor RhCT yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion i fynd i'w hysgol gynradd, babanod neu ysgol iau berthnasol, os ydyn nhw'n byw y tu hwnt i 1.5 o filltiroedd cerdded o'r ysgol honno, neu os nad oes llwybr cerdded ar gael. Ysgol y dalgylch, neu'r ysgol agosaf, ydy'r 'ysgol berthnasol'.

Caiff pwy bynnag a fynno gyflwyno gwrthwynebiad i'r cynigion yma cyn pen 28 o ddiwrnodau o ddyddiad cyhoeddi'r cynnig yma, sef 23 Gorffennaf 2021. Dylid anfon gwrthwynebiadau at: Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, Tŷ Trevithick, Abercynon, Aberpennar CF45 4UQ. E-bost: CynllunioYsgolion@rctcbc.gov.uk

Bydd Cyngor RhCT yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a ddaw i law (ac sydd heb eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i sylwadau arnyn nhw, cyn pen cyfnod o 7 niwrnod o benderfynu ar y cynnig.

Gaynor Davies

Llofnod:
Gaynor Davies
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Dyddiad: 25 Mehefin 2021